

**Arolygiad Gofal Iechyd
Annibynnol (Dirybudd)**
CAIS Ltd., Hafan Wen,
Wreccsam

Dyddiad yr Arolygiad: 7 ac 8
Chwefror 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 6 Mehefin
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	13
5.	Y Camau Nesaf.....	17
6.	Methodoleg	18
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dirybudd o Hafan Wen, Wrecsam, ar 7 ac 8 Chwefror 2017.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn yr arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Mae rhagor o fanylion am ein dull o arolygu gwasanaethau annibynnol ar gael yn Adran 6.

2. Cyd-destun

Mae CAIS Ltd. wedi ei gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol yn Hafan Wen, Wrecsam. Ceir 25 gwely yn y gwasanaeth ac mae'n cynnig dadwenwyno cleifion mewn ysbyty ar gyfer dynion a menywod. Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 13 Ionawr 1997.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys rheolwr cofrestredig, dirprwy reolwr, nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd, cydgysylltydd therapiwtig, gweithwyr therapiwtig, staff gweinyddol a staff arlwyo.

3. Crynodeb

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol fod systemau ar waith i gadw cleifion yn ddiogel ac i ddarparu gofal a oedd yn effeithiol.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y cleifion i ni siarad â nhw wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i drafod eu gofal a bod y staff wedi bod yn garedig tuag atynt
- Gwelsom fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i lunio cynlluniau gofal ysgrifenedig unigol ar gyfer pob claf
- Darparwyd hyfforddiant i'r cleifion ar sut i gymryd naloxone¹
- Canfuwyd gwaith tîm amlddisgyblaeth effeithiol gennym
- Roedd y tîm staff yn ymddangos yn gyfeillgar a chanfuwyd dull cynhwysol o reoli'r gwasanaeth gennym

Dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gallai'r practis ei wella:

- Cofnodi gwybodaeth asesu berthnasol yng nghofnodion y cleifion
- Trefniadau ar gyfer glanhau'r amgylchedd
- Dangos camau i wella o archwiliadau clinigol
- Hyfforddiant (diweddariadau) i staff ac argaeledd gwybodaeth a dogfennau recriwtio sy'n ofynnol o dan y rheoliadau

Nodwyd diffyg cydymffurfiaid â rheoliadau gennym yn ystod yr arolygiad hwn o ran cofnodi yng nghofnodion gofal y cleifion, trefniadau glanhau, dangos gwelliant i ansawdd, diweddarau'r datganiad o ddiben a chynnwys gwybodaeth yn y canllaw i gleifion, diweddarau hyfforddiant staff, ac argaeledd gwybodaeth a dogfennau yn ffeiliau recriwtio'r staff. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â'r rheoliadau.

¹ Meddyginiaeth a all wrthdroi effeithiau gorddos o rai mathau o gyffuriau (opioidau) yw naloxone.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Canfuwyd gennym fod trefniadau ar waith i gynorthwyo cleifion i wella eu hiechyd a'u llesiant. Dywedodd y cleifion i ni siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i drafod eu gofal a bod y staff wedi bod yn garedig tuag atynt. Gwelsom y staff yn trin cleifion gyda pharch ac roedd trefniadau ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion cyn belled â phosibl.

Gwelsom fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i sicrhau bod cynlluniau gofal ysgrifenedig yn unigol i bob claf, ond nodwyd gennym fod angen gwella o ran sicrhau bod gwybodaeth asesu berthnasol yn cael ei chofnodi.

Roedd y cleifion yn gallu cynnig adborth ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn gyda'r nod i'r uned wneud gwelliannau fel sy'n briodol.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Canfuwyd gennym fod trefniadau ar waith i gynorthwyo cleifion i fabwysiadu a gwella eu hiechyd, eu llesiant a'u hannibyniaeth.

Trwy siarad â staff a chleifion ac edrych ar gofnodion gofal cleifion, canfuwyd gennym fod gofal yn cael ei gynllunio i gynnwys mewnbwn meddygon, nyrsys a staff therapiwtig. Nod y gofal oedd cynorthwyo cleifion yn ddiogel trwy'r broses ddadwenwyno a gwella eu hiechyd a'u llesiant.

Dywedodd y cleifion i ni siarad â nhw fod y tîm staff yn garedig ac yn cynnig anogaeth a chymhelliad i'w helpu trwy eu cyfnod dadwenwyno. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi datblygu grwpiau cyfeillgarwch a bod y rhain hefyd yn ffynhonnell o gymorth a chymhelliad yn ystod eu harhosiad yn yr uned.

Roedd nifer o daflenni hybu iechyd a manylion sefydliadau cymorth ar gael yn nerbynfa'r uned.

Urddas a pharch

Gwelsom fod gan yr uned drefniadau ar waith i hybu preifatrwydd ac urddas cleifion. Gwelsom y staff yn trin cleifion gyda pharch.

Roedd datganiad o ddiben yr uned yn nodi'n eglur y nodau ar gyfer parchu preifatrwydd cleifion cyn belled â phosibl. Roedd hefyd yn nodi mai ethos yr uned oedd trin cleifion gyda pharch.

Roedd y trefniadau ar gyfer parchu preifatrwydd yn cynnwys:

- Roedd gan yr holl gleifion eu hystafell wely eu hunain â thoiled a chyfleusterau ymolchi en suite
- Roedd y cleifion yn derbyn allwedd i gloi eu hystafelloedd gwely yn unol â'u dymuniadau
- Cadw gwybodaeth gyfrinachol yn ddiogel mewn cypyrddau y gellir eu cloi

Roedd lolfeydd yn yr uned a oedd wedi'u neilltuo i gael eu defnyddio gan gleifion gwrywaidd neu fenywaidd yn unig, ynghyd â lolfeydd rhywiau cymysg y gallai cleifion eu defnyddio yn unol â'u dymuniadau. Roedd cynllun y gwasanaeth hefyd yn caniatáu i gleifion gwrywaidd a benywaidd gael llety mewn mannau un rhyw (mewn rhannau ar wahân o'r adeilad). Dywedodd y staff wrthym y byddent, pryd bynnag y bo'n bosibl, yn sicrhau bod cleifion yn cael llety mewn mannau un rhyw i hybu urddas cleifion.

Gwelsom y staff yn trin cleifion gyda charedigrwydd a pharch trwy gydol ein harolygiad.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Canfuwyd gennym fod gwybodaeth yn cael ei darparu i gleifion a'u bod yn cael cyfleoedd i drafod eu hopsiynau triniaeth a gofal gyda'r tîm staff.

Roedd gwybodaeth am yr uned wedi ei nodi'n eglur yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Gyda'i gilydd, roedd y rhain yn disgrifio sut y gellid atgyfeirio cleifion am ofal a thriniaeth, y trefniadau ar gyfer derbyn, a sut y byddai gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio.

Trwy edrych ar gofnodion gofal cleifion a siarad â staff a chleifion, canfuwyd gennym fod trefniadau ar waith i gleifion drafod unrhyw agwedd ar eu gofal yn ystod eu harhosiad. Cadarnhaodd y cleifion i ni siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i siarad â'r staff am eu gofal.

Cynllunio a darparu gofal

Canfuwyd gennym fod gan yr uned llwybr gofal sefydledig ar waith a oedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer atgyfeirio, derbyn, asesu, darparu gofal a rhyddhau cleifion. Nodwyd gennym fod angen gwella agweddau ar asesu cleifion.

Roedd y llwybr gofal wedi'i amlinellu yn natganiad o ddiben a chanllaw i gleifion yr uned. Roedd yr uned yn derbyn cleifion sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd lleol ac o ardaloedd 'tu allan i'r sir' cyfagos yn Lloegr. Disgrifiwyd llwybr gofal sefydledig o

adeg atgyfeirio'r claf i'r uned hyd at ei ryddhau. Rheolwyd yr holl atgyfeiriadau cleifion trwy reolwr masnachol y sefydliad.

Edrychwyd ar sampl o gynlluniau gofal pedwar o gleifion a chanfuwyd gennym fod ymdrechion wedi cael eu gwneud gan y tîm staff i unigoli'r rhain i bob claf. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd gwybodaeth allweddol o ddogfennau asesu cyn-derbyn (a gwblheir gan dimau gofal iechyd cymuned) bob amser wedi cael ei chofnodi yn y dogfennau a ddefnyddir yn yr uned. Byddai cofnodi'r wybodaeth hon yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio gyda'r nod o hybu diogelwch a llesiant cleifion. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd rhai cofnodion yn y cofnodion gofal ysgrifenedig wedi cael eu llofnodi, yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Gwelsom hefyd nad oedd gan un claf â chyflwr meddygol gynllun gofal ysgrifenedig i hysbysu a chyfarwyddo'r staff ar y gofal yr oedd ei angen. Nid oedd dull asesu maethegol cydnabyddedig yn cael ei ddefnyddio (gweler yr adran Maetheg ar dudalen 11).

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i'r holl wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys yng nghofnodion gofal cleifion, gan gynnwys asesiadau risg a chynlluniau gofal.

Mae'n rhaid cwblhau cofnodion yn unol â pholisïau'r personau cofrestredig a safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Anogwyd y cleifion i gwblhau dyddiadur llwybr gwella yn ystod eu harhosiad yn yr uned, gan nodi eu cynnydd. Nodwyd hyn gennym fel arfer nodedig, ond gwelsom nad oedd y rhain wedi cael eu cwblhau bob amser a chanfuwyd gennym nad oedd y cleifion bob amser yn deall diben y dyddiaduron. Dylai'r personau cofrestredig archwilio ffyrdd o annog y cleifion i ddefnyddio a chwblhau'r rhain yn rhan o'u rhaglen wella.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd yr uned yn cydnabod ei chyfrifoldebau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Roedd yr uned yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion sy'n oedolion. Roedd hyn yn unol ag amodau ei chofrestriad gydag AGIC. Roedd y datganiad o ddiben yn disgrifio'n eglur yr amgylchiadau lle na fyddai'r uned yn gallu darparu gwasanaethau i gleifion. Er bod cyfyngiadau yn cael eu gosod ar gleifion o ran derbyn ymweliadau ac ysmegu ar y safle, roedd y rhain wedi eu nodi'n eglur yn y datganiad o ddiben. Dywedodd y staff wrthym y gall cleifion weld aelodau eu teulu oddi ar y safle o dan amgylchiadau penodol. Byddai angen cytuno hyn yn rhan o gynllun gofal yr unigolyn.

Canfuwyd gennym fod y cleifion yn cael dewis o ran eu trefnau beunyddiol yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Gall cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn a'r rheini ag anawsterau symud gael mynediad at yr uned. Roedd mynediad gwastad at y prif adeilad a lifft ar gyfer pobl yn gwasanaethu'r ddau lawr. Roedd ystafelloedd ar gael a oedd yn gwneud mynediad yn haws i'r cleifion hynny sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Awgrymodd y staff i ni siarad â nhw y gellid gwneud rhagor o newidiadau i'r amgylchedd i'w wneud yn haws i ddefnyddio offer codi a chario ar gyfer y cleifion hynny nad ydynt yn gallu symud cystal ac sydd ag angen cymorth. Dylai'r personau cofrestredig archwilio pa newidiadau y gellid eu gwneud yn hyn o beth felly.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd gan yr uned drefniadau ar waith i gleifion ddarparu adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth.

Roedd blwch awgrymiadau wedi ei leoli yn y dderbynfa/cyntedd. Gallai'r cleifion ddefnyddio hwn i wneud awgrymiadau am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom hefyd fod y gwasanaeth wedi gofyn am safbwyntiau cleifion ar ôl eu rhyddhau gyda'r nod o nodi a gwneud gwelliannau fel sy'n briodol.

Canfuwyd gennym fod ymweliad monitro ansawdd wedi cael ei wneud i'r gwasanaeth yn ystod y chwe mis diwethaf fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Gwelsom y gofynnwyd am safbwyntiau'r staff a'r cleifion a bod adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei lunio, a oedd yn cynnwys cynllun gweithredu i wneud gwelliannau.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Canfuwyd gennym fod systemau ar waith i gadw cleifion yn ddiogel ac i ddarparu gofal a oedd yn effeithiol.

Gwelsom fod yr uned wedi ei chynnal a'i chadw'n dda yn gyffredinol ac yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion aros ynddo. Nodwyd gennym fod angen gwella'r trefniadau glanhau er mwyn cynnal lefel briodol o lendid ar yr uned. Caiff pryddau eu paratoi ar y safle ac fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn mwynhau'r bwyd a ddarperir.

Arweinir triniaeth glinigol gan feddyg seiciatrig ymgynghorol a chanfuwyd gwaith tîm amlddisgyblaeth effeithiol gennym.

Yr amgylchedd

Roedd yn ymddangos bod yr uned wedi ei chynnal a'i chadw'n dda a bod trefniadau ar waith i gadw'r cleifion yn ddiogel. Roedd y cyfleusterau yn yr uned yn caniatáu i'r cleifion dreulio amser yn breifat neu i gymdeithasu gyda chleifion eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau. Canfuwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau o ran glendid.

Roedd yr uned wedi ei threfnu dros ddau lawr ac yn cynnwys ystafelloedd gwely unigol (pob un â thoiled a chyfleusterau ymolchi en suite), mannau cymunedol (gan gynnwys mannau a neilltuwyd ar gyfer dynion neu fenywod), ystafell gelf/cyfrifiaduron, ystafell ymlacio, cegin, ystafell golchi dillad a swyddfeydd gweinyddol. Roedd adeilad ar wahân hefyd, wedi'i leoli'n agos at y brif uned, a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithgareddau therapiwtig y cleifion a chyfarfodydd grŵp. Roedd yr holl fannau i ni eu gweld yn ymddangos wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac wedi'u haddurno'n briodol. Ar adeg ein harolygiad, roedd gwaith ailaddurno yn cael ei wneud ac roedd mesurau diogelwch ar waith i ddiogelu cleifion tra bod y gwaith yn cael ei wneud. Roedd systemau diogelwch ar waith i atal mynediad heb awdurdod i'r uned a'r tu mewn iddi. Ni nodwyd unrhyw beryglon amlwg i ddiogelwch cleifion na staff gennym yn ystod taith o gwmpas yr uned.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, gallai cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn a'r rheini ag anawsterau symud gael mynediad at yr uned a'i defnyddio.

Canfuwyd gennym fod pob man wedi ei wresogi, ei awyru a'i oleuo'n briodol. Roedd gan yr uned ei gerddi awyr agored ei hun y gall cleifion eu defnyddio gyda chymorth y staff. Roedd man ysmegu neilltuedig yn yr awyr agored hefyd, nesaf at yr uned, y gall cleifion ei ddefnyddio.

Esboniodd y staff fod trosiant y cleifion a dderbynnir i'r uned wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Roedd yn ymddangos bod hyn yn achosi problemau o ran cadw'r uned yn ddigon glân. Fe'n hysbyswyd bod gwasanaethau glanhau yn cael eu darparu trwy gontract gan lanhawyr allanol. Er i ni weld bod yr uned yn lân ac yn daclus yn gyffredinol, nodwyd gennym fod angen gwelliannau o ran glendid yr ystafell ymlacio, yr ystafell ymolchi a'r lolfeydd/ystafelloedd bwyta. Mae'n rhaid felly i'r personau cofrestredig adolygu'r trefniadau ar gyfer glanhau i sicrhau bod yr uned yn cael ei chadw'n ddigon glân bob amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig adolygu'r trefniadau ar gyfer glanhau i sicrhau y gellir cadw pob rhan o'r uned yn ddigon glân.

Maetheg

Canfuwyd gennym fod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i anghenion maethegol y cleifion a bod dewis o brydau bwyd yn cael ei gynnig. Dylid ystyried cyflwyno offeryn sgrinio maetheg sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a ddarperir yn yr uned.

Dywedodd y staff wrthym fod gofynion a dymuniadau deietegol y cleifion yn cael eu nodi pan fyddant yn cael eu derbyn i'r uned. Fe'n hysbyswyd hefyd bod y cleifion yn cael eu pwysu wrth eu derbyn a bod cyngor ar fwyta'n iach yn cael ei roi iddynt yn unol â'u hanghenion a aseswyd. Nid oedd unrhyw offeryn sgrinio/asesu seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei ddefnyddio, fodd bynnag, a dylai'r personau cofrestredig ystyried cyflwyno hyn i gryfhau'r broses asesu corfforol bresennol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r personau cofrestredig ystyried cyflwyno offeryn sgrinio/asesu maethegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gwelsom fod prydau bwyd yn cael eu paratoi a'u coginio ar y safle. Dywedodd y cleifion i ni siarad â nhw wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a bod dewis o brydau ar gael. Gwelsom fod dewis o fwydlen ar gael ar gyfer brecwast, cinio a swper. Roedd diodydd poeth ac oer a byrbrydau ar gael drwy'r dydd ac roedd dewisiadau eraill yn hytrach na'r fwydlen hefyd ar gael pe na bai'r cleifion yn hoffi'r opsiynau a oedd ar gael ar y fwydlen.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan yr uned drefniadau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom ddau fater yn ymwneud â rhagnodi a rhoi meddyginiaeth lle'r

oedd angen gwella. Pan dynnwyd sylw staff uwch at y materion hyn, cymerasant gamau ar unwaith i hybu diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael i lywio'r staff ar storio, rhagnodi a rhoi meddyginiaethau a ddefnyddir yn yr uned yn ddiogel. Roedd gan y staff sy'n gweithio yn yr uned fynediad at gymorth a chynghor ar faterion yn ymwneud â meddyginiaeth trwy fferyllydd y bwrdd iechyd lleol.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei chadw mewn cypyrddau wedi eu cloi yn ystafell glinigol yr uned, a oedd yn lân a thaclus. Gwelsom fod meddyginiaeth wedi ei storio'n ddiogel. Gwelsom hefyd fod trefniadau ar waith ar gyfer storio, gwirio a chofnodi cyffuriau a reolir yn ddiogel, pan fo angen archwiliadau ychwanegol. Derbyniwyd sylw gennym a oedd yn awgrymu y gellid gwella prydlondeb rhoi meddyginiaeth trwy neilltuo aelod ychwanegol o'r staff i roi meddyginiaeth. Dylai'r personau cofrestredig archwilio felly a ellir gwneud unrhyw welliannau yn hyn o beth, gan sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion ar yr un pryd.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a chanfuwyd gennym fod y mwyafrif wedi cael eu cwblhau'n gywir. Fodd bynnag, nodwyd dau fater gennym o'r cofnodion hyn: un yn ymwneud â sut yr oedd presgripsiwn wedi cael ei gofnodi ar y cofnod rhoi meddyginiaeth ac un yn ymwneud â methu â rhoi meddyginiaeth fel y rhagnodwyd (gwall meddyginiaeth). Tynnwyd sylw staff uwch at y materion hyn ar unwaith. Cyn diwedd ein harolygiad, fe'n sicrhawyd nad oedd y rhain wedi arwain at unrhyw niwed i'r cleifion dan sylw a bod camau cywiro wedi cael eu cymryd ar unwaith. Cymerwyd camau dilynol gennym hefyd o ran y camau ehangach a gymerwyd gan y personau cofrestredig i atal materion tebyg rhag codi eto. Fe'n sicrhawyd bod dysgu wedi cael ei nodi a bod camau'n cael eu cymryd o ganlyniad i hybu diogelwch a llesiant cleifion.

Roedd ystafell ar wahân y gallai cleifion ei defnyddio ar gyfer eu harchwiliadau (pwls, pwysedd gwaed a chyfradd anadlu) ac i drafod gyda'r staff gofal iechyd unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt ynghylch rhoi'r gorau i gymryd rhywbeth.² Roeddem o'r farn bod y drefn hon yn arfer nodedig.

Darparwyd hyfforddiant i'r cleifion ar gymryd naloxone cyn eu rhyddhau. Cyffur a all wrthdroi effeithiau gorddos opioid dros dro yw naloxone, gan roi mwy o amser i ambiwlans gyrraedd ac i driniaeth gael ei rhoi. Nodwyd gennym fod darparu'r hyfforddiant hwn i gleifion yn arfer nodedig.

² Mae hyn yn cyfeirio at y symptomau y gallai cleifion eu cael pan fyddant yn gaeth i sylwedd (fel alcohol a chyffuriau) ac yna'n lleihau'n ddrastig neu'n rhoi'r gorau i gymryd y sylwedd yn sydyn.

Roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio pe bai argyfwng claf (ymgwympiad). Gwelsom gofnodion yn dangos bod staff wedi gwirio hwn yn wythnosol i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd gan y staff fynediad hefyd at offer a meddyginiaeth, wedi eu storio ar wahân i'r offer dadebru, y gellir eu defnyddio pe bai claf yn dioddef trawiad. Fe'n hysbyswyd nad oedd y rhain yn cael eu gwirio'n rheolaidd a dylid gwneud trefniadau i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i wirio'n rheolaidd yr offer a'r feddyginiaeth a allai gael eu defnyddio pe bai claf yn dioddef trawiad.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Canfuwyd gennym fod gofal a thriniaeth yn yr uned wedi eu seilio ar arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Caiff triniaeth glinigol yn yr uned ei harwain gan seicolegydd ymgynghorol ac fe'n hysbyswyd bod y protocol dadwenwyno a ddefnyddir wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol. Disgrifiwyd a dangoswyd cysylltiadau cefnogol gyda thimau cymunedol a'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom fod y tîm staff yn defnyddio dull cydnabyddedig (CIWA) gyda'r bwriad o asesu a rheoli'n ddiogel y cleifion hynny a oedd wrthi'n rhoi'r gorau i gymryd alcohol.

Arweiniwyd y rhaglen therapiwtig a oedd â'r nod o gynorthwyo cleifion drwy'r broses ddadwenwyno gan weithwyr therapiwtig. Disgrifiwyd amrywiaeth o ddulliau seicogymdeithasol seiliedig ar dystiolaeth, fel therapi gwybyddol ymddygiadol, ymwybyddiaeth ofalgar, a therapi derbyn ac ymrwymo.

Esboniodd staff uwch fod staff wedi cael eu recriwtio'n ddiweddar a oedd yn cynnwys nyrsys cofrestredig â phrofiad o gyflyrau iechyd corfforol. Esboniwyd ganddynt fod y dull hwn wedi bod yn fuddiol o ran gwella ac ehangu set sgiliau'r tîm.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd ac atebolrwydd eglur. Dangoswyd dull rheoli cynhwysol.

Canfuwyd tîm staff a oedd yn gyfeillgar ac wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roeddem yn gallu cadarnhau bod cyfleoedd ar gael i'r staff fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd. Nodwyd gennym fod angen rhywfaint o welliant o ran sicrhau bod staff yn gyfredol gyda'u hyfforddiant.

Gwelsom fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i asesu addasrwydd staff i weithio yn yr uned. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau i sicrhau bod ffeiliau staff yn cynnwys yr holl wybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff yr uned ei rhedeg gan CAIS Cyfyngedig, elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig trwy warant. Yn unol â'r rheoliadau, roedd unigolyn cyfrifol a rheolwr cofrestredig wedi eu penodi. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gyfrifol am reoli'r uned o ddydd i ddydd. Roedd gan yr unigolyn cyfrifol, ynghyd â staff rheoli eraill, swyddogaeth reoli ehangach o fewn CAIS. Disgrifiwyd a dangoswyd llinellau dirprwyo, atebolrwydd ac adrodd o fewn yr uned a'r sefydliad ehangach.

Disgrifiwyd system o weithgarwch gwella ansawdd a gwelsom enghreifftiau o archwiliadau clinigol a oedd wedi cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion rhoi meddyginiaeth a chofnodion gofal y cleifion. Er i ni weld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau, nid oedd bob amser yn eglur pa gamau oedd wedi cael eu cymryd o ganlyniad er mwyn gwneud gwelliannau ac mae angen i'r personau cofrestredig roi sylw i hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i ddangos pa gamau gwella sydd wedi eu cymryd, os o gwbl, o ganlyniad i weithgarwch archwilio clinigol.

Gwelsom fod ymweliadau monitro ansawdd yn cael eu cynnal fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Roedd systemau ar waith i gleifion gynnig adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth ac i godi pryderon (cwynion) am eu gofal a'u triniaeth. Roedd y rhain yn gallu nodi lle gellid gwneud newidiadau, gyda'r nod o wneud gwelliannau fel sy'n briodol, ynghyd â meysydd o fodlonrwydd a gwerthfawrogiad cleifion y gellid eu rhannu gyda'r timau staff.

Roedd gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Gyda'i gilydd, roedd y rhain yn nodi'r gwasanaethau y gellid eu darparu, y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn, a gwybodaeth arall i gleifion am gyfleusterau'r uned. Disgwyliwyd i'r datganiad o ddiben gael ei adolygu ym mis Ebrill 2016. Esboniodd staff uwch ei fod yn cael ei adolygu ar adeg ein harolygiad. Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud i adolygu'r datganiad o ddiben yn rheolaidd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i adolygu a diweddarau'r datganiad o ddiben yn rheolaidd.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan yr uned weithdrefn gwynion (pryderon) fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Roedd gwybodaeth am sut y gall cleifion wneud cwyn wedi ei harddangos yn y dderbynfa. Roedd y weithdrefn i'w dilyn, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC, hefyd wedi ei chynnwys yn y datganiad o ddiben fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Roedd angen cynnwys crynodeb o'r weithdrefn gwynion yn y canllaw i gleifion hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau priodol i gynnwys crynodeb o'r weithdrefn gwynion yn y canllaw i gleifion.

Dywedodd staff uwch wrthym mai nod yr uned yw ymateb i gwynion (pryderon) yn brydlon. Cadarnhawyd ganddynt hefyd fod cofnodion o gwynion yn cael eu cadw a disgrifiwyd proses ar gyfer cydnabod, ymchwilio ac ymateb i gwynion. O ran cwynion cymhleth, a allai gymryd mwy o amser i'w hymchwilio, disgrifiodd staff uwch broses ar gyfer hysbysu achwynwyr am y cynnydd o ran ymateb i'w cwynion.

Disgrifiodd staff uwch system ar gyfer adrodd, cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau. Fe'n hysbyswyd y byddai dysgu o ddigwyddiadau'n cael ei rannu gyda staff mewn cyfarfodydd wythnosol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Canfuwyd gennym fod y tîm staff yn gyfeillgar ac wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer hyfforddi a datblygu staff.

Dywedodd y staff i ni siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn gweithio'n dda fel tîm. Nodwyd ganddynt hefyd bod cyfleoedd ar gael iddynt fynychu hyfforddiant. Roeddem yn gallu cadarnhau bod staff newydd yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo'n briodol yn eu swyddi.

Edrychwyd ar y cofnod hyfforddiant a oedd wedi cael ei ddatblygu i gynnig trosolwg o hyfforddiant a fynychwyd gan staff sy'n gweithio yn yr uned. Gwelsom dystiolaeth fod staff wedi mynychu hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w swyddi; fodd bynnag, roedd angen gwella yn hyn o beth er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn gyfredol gyda'u hyfforddiant. Roedd enghreifftiau yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio diffibriliwr, anaffylacsis, hunanladdiad a hunan-niweidio, a rheoli heintiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i sicrhau bod hyfforddiant staff yn cael ei gadw'n gyfredol.

Er bod cofnod hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu, trafodwyd ffyrdd i'w gwneud yn haws i nodi pryd y disgwyliwyd i hyfforddiant gael ei ailadrodd. Cytunodd y staff uwch i archwilio opsiynau i'w cynorthwyo yn hyn o beth. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi derbyn gwerthusiad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Disgrifiwyd system o oruchwyliaeth grŵp glinigol wythnosol gan y staff uwch. Fe'n hysbyswyd bod goruchwyliaeth cymorth rheoli 1:1 wedi cychwyn yn ddiweddar ac y disgwyliwyd iddi gael ei chynnal yn fisol. Mae angen i AGIC dderbyn diweddariad ar gynnydd yn hyn o beth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig roi diweddariad i AGIC ar gynnydd o ran gweithredu goruchwyliaeth reoli 1:1.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i wirio bod staff yn gymwys i weithio gyda chleifion yn yr uned. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r personau cofrestredig sicrhau y derbynnir hanes cyflogaeth llawn a'i gofnodi ar ffeil.

Edrychwyd ar sampl o ffeiliau recriwtio pump o staff. Ac eithrio un aelod o staff (a oedd wedi bod yn gweithio yn yr uned ers blynnyddoedd lawer), gwelsom fod dau dystlythyr wedi cael eu derbyn. Roedd yr holl staff yn y sampl i ni ei hystyried wedi derbyn archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r rhain yn ofynnol o dan y rheoliadau ac yn helpu i ddangos bod y staff yn addas i weithio yn yr uned. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gymwysterau perthnasol y staff fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Nid oedd hanesion cyflogaeth llawn, fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau,

ar gael ar gyfer yr holl staff ac mae angen i'r personau cofrestredig wneud trefniadau i gael gafael ar y rhain a chadw cofnod ar ffeil.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ffeiliau recriwtio staff yn cynnwys yr holl wybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Hafan Wen yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus.

6. Methodoleg

Nod arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yw sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a darganfod sut y mae gwasanaethau yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.³

Rydym yn cynnal arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd a dirybudd o wasanaethau gofal iechyd annibynnol ac rydym yn eu harolygu ac yn adrodd yn erbyn tair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:**
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:**
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:**
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru).

Rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff (lle bo'n briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau (lle bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau

³ Cyhoeddwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru ym mis Ebrill 2011. Bwriad y safonau yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael eu sicrhau o wasanaethau diogel o ansawdd. <http://www.hiw.org.uk/regulate-healthcare-1>

- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo'n briodol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r darparwr cofrestredig at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiad trwy gyfrwng hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.⁴ Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o i ba raddau y mae gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau diogelwch ac ansawdd hanfodol ar ddiwrnod yr arolygiad.

⁴ Yn rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno lle mae diffyg cydymffurfiaid â'r rheoliadau yn fwy difrifol ac yn ymwneud â chanlyniadau gwael a methiant systemig. Bydd hyn pan fo canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a phan fo methiannau'n arwain at beryglu hawliau pobl. Mae copi o broses gydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth: CAIS Ltd., Hafan Wen, Wrecsam

Dyddiad yr Arolygiad: 7 ac 8 Chwefror 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i'r holl wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys yng nghofnodion gofal cleifion, gan gynnwys asesiadau risg a chynlluniau gofal. Mae'n rhaid cwblhau cofnodion yn unol â pholisïau'r personau cofrestredig a safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	23	- Addasu'r dull o archwilio nodiadau achos i edrych ar reolaeth cofnodion gofal cleifion a sicrhau bod gwybodaeth gyfeirio berthnasol yn cael ei chynnwys ynddynt. - Cynyddu pa mor aml mae nodiadau achos yn cael eu harchwilio er mwyn iddynt gael eu cynnal yn wythnosol a sicrhau bod goruchwyliaeth rheoli llinell yn cael ei chynnal	Amie Ashworth – Nyrs Arwain Amie Ashworth – Nyrs Arwain	1 Mehefin 2017 1 Mehefin 2017 a pharhaus

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			i roi sylw i ddiffyg cydymffurfiaeth â safonau. - Adolygu'r dull asesu risg. - Pob gweithiwr cymorth gofal iechyd i gwblhau hyfforddiant 'Cadw Cofnodion Priodol'.	Mel Garbutt – Dirprwy Reolwr Liz Jones – Rheolwr	1 Mehefin 2017 Medi 2017
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
10	Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig adolygu'r trefniadau ar gyfer glanhau i sicrhau y gellir cadw pob rhan o'r uned yn ddigon glân.	26(2)(a)	1. Datblygu cynllun gweithredu i: - Adolygu'r gwasanaeth glanhau dan y contract presennol gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth gyfredol; - Cynyddu'r ddarpariaeth glanhau yn Hafan Wen i sicrhau bod glendid yr uned yn cael ei gynnal i safon uchel; - Ystyried trefniadau ar gyfer	Liz Jones – Rheolwr	Medi 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			contract glanhau arall. 1. Archwilio glendid yn yr uned yn fisol a hysbysu'r contractwr glanhau am welliannau gofynnol.	Liz Jones – Rheolwr	Dechrau 1 Mehefin 2017 a pharhaus
10	Dylai'r personau cofrestredig ystyried cyflwyno offeryn sgrinio/asesu maethegol addas sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	9(a)	Ystyrir bod yr offeryn sgrinio maethegol 'MUST', sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn briodol i'w ddefnyddio yn Hafan Wen. Rhoi MUST ar waith yn unol â phroses asesu risg a chynllun gofal cleifion.	Mel Garbutt – Dirprwy Reolwr	1 Mehefin 2017
12	Dylai'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i wirio'n rheolaidd yr offer a'r feddyginiaeth a allai gael eu defnyddio pe bai claf yn dioddef trawiad.	15(5)(a)	Datblygu dull archwilio ar gyfer gwirio'r offer trawiad yn wythnosol. Gwiriad i gael ei gwblhau bob dydd Mercher gan y Nyrs â Gofal – Sifft Nos.	Mel Garbutt – Dirprwy Reolwr Nyrs â Gofal – Sifft Nos	1 Mehefin 2017 1 Mehefin 2017 a pharhaus
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
13	Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i ddangos pa gamau gwella	19(1)(a)(b)	Bydd pob archwiliad clinigol sy'n cael ei gwblhau'n cael ei adolygu gan nyrs arwain. Rhoddir sylw i	Amie Ashworth – Nyrs Arwain	Ar unwaith ac yn

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	sydd wedi eu cymryd, os o gwbl, o ganlyniad i weithgarwch archwilio clinigol.		welliannau a chatau gweithredu trwy gyfrwng cynllun gwella. Bydd y cynllun gwella'n nodi cyfrifoldebau staff ac amserlenni ar gyfer cwblhau. Canlyniadau archwiliadau clinigol i gael eu hadolygu a'u hysbysu i reolwyr uned yn unol â Fframwaith Llywodraethu Clinigol Hafan Wen.		barhaus.
14	Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i adolygu a diweddarau'r datganiad o ddiben yn rheolaidd.	8(a)	Y datganiad o ddiben i gael ei adolygu yn unol â datblygiadau'r gwasanaeth. Datganiad o ddiben diwygiedig i gael ei anfon at AGIC. Adolygiad blynyddol (os na cheir diwygiadau) ar 1 Ebrill a hysbysu AGIC. Anfonwyd copi diwygiedig at AGIC ar 22 Mai 2017.	Liz Jones – Rheolwr	Ar unwaith ac yn barhaus.
14	Rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod crynodeb o'r weithdrefn gwyno'n cael ei gynnwys yn y canllaw i gleifion.	7(1)(d)	Mae'r canllaw i gleifion wedi cael ei adolygu i gynnwys crynodeb o'r weithdrefn gwyno. Mae canllawiau newydd i ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu cyhoeddi ac mae'r canllaw electronig wedi cael ei ddiweddarau.	Sarah Pattern – Rheolwr Derbyn Cleifion	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			Anfonwyd canllaw diwygiedig at AGIC ar 22 Mai 2017.		
15	Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau priodol i sicrhau bod hyfforddiant staff yn cael ei gadw'n gyfredol.	20(2)(a)	Gwella'r matrices hyfforddiant Excel cyfredol i sicrhau bod rhybudd yn dangos pryd y mae angen i staff fynychu cyrsiau hyfforddiant diweddarau. Bydd y celloedd yn y matrices hyfforddi yn cynnwys cynllun lliwiau a fydd yn hysbysu rheolwyr am statws gofynion hyfforddiant, e.e. wedi dod i ben, dim angen ailhyfforddi.	Liz Jones – Rheolwr	I'w gwblhau 31 Gorffennaf 2017
15	Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig roi diweddariad i AGIC ar y cynnydd o ran gweithredu goruchwyliaeth reoli 1:1.	20(2)(a)	- Mae fframwaith ar gyfer goruchwyliaeth gan reolwyr ar waith yn Hafan Wen. - Adolygu templedi ysgrifenedig i sicrhau eu bod yn cynnwys camau gweithredu a'r hyn y mae angen i staff ei ddysgu. - Adolygu strwythur goruchwyllo i gynnwys: cyfrifoldebau goruchwylwr staff, e.e. uwch staff i ddarparu goruchwyliaeth rheoli llinell i weithwyr sy'n	Liz Jones – Rheolwr / Mel Garbutt – Dirprwy Reolwr / Amie Ashworth – Nyrs Arwain (pob cam gweithredu)	Dyddiad dechrau 1 Mehefin 2017 Dyddiad cwblhau ar gyfer gweithredu 1 Gorffennaf 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			atebol iddynt, a hysbysu pob aelod o staff am apwyntiadau goruchwyllo. • Darparu hyfforddiant i uwch staff ar sut i ddefnyddio'r broses. • Casglu canlyniadau a datblygu cynllun gweithredu. • Adolygu'r cynllun gweithredu mewn cyfarfodydd adolygu ansawdd. • Hysbysu am ddigwyddiadau trwy gyfrwng dolen adborth Llywodraethu Clinigol.		
16	Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod ffeiliau recriwtio staff yn cynnwys yr holl wybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.	21(1)(a), 21(2)(d)	Adran Adnoddau Dynol, Prif Swyddfa CAIS Bydd rheolwyr Hafan Wen yn sicrhau bod pob cais llwyddiannus am swydd yn cynnwys hanes cyflogaeth llawn. Mae rhestr wirio o ofynion rheoleiddiol wedi cael ei datblygu a'i rhoi ar waith gan swyddogion adnoddau dynol, ac mae wedi cael ei gosod yn ffeiliau personél pob cyflogai newydd.	Rosemary Hunter a Katie Sanders – Swyddogion Adnoddau Dynol	Ar unwaith ac yn barhaus

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): ELIZABETH JONES.....

Teitl: RHEOLWR Y GWASANAETH.....

Dyddiad: 22/05/17.....